

Bank of England

Cynllun Cymraeg y Bank of England - adroddiad monitro 2025

Hydref 2025

Cynllun Cymraeg y Bank of England - adroddiad monitro 2025

1 Cefndir

- 1.1 Cymeradwywyd Cynllun Cymraeg¹ ("cynllun y Banc") y Bank of England ("y Banc") gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 14 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 14 Hydref 2011. Diweddarwyd y Cynllun wedyn i gymryd cyfrif o: (a) creu'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus ("yr PRA"), fel is-gwmni i'r Banc, ym mis Ebrill 2013 (diweddariad wedi'i gymeradwyo gan y Comisiynydd y Gymraeg ar 20 Mai 2014); a (b) ail-lunio ymrwymiad y Banc i'w ddau bwrpas craidd yn un Datganiad Cenhadaeth hollgynhwysol ym mis Mawrth 2014 (diweddariad wedi'i gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 1 Ebrill 2015); ac (c) bod y PRA yn cael ei ddwyn o fewn endid cyfreithiol sengl y Bank of England ym mis Mawrth 2017 (diweddariad wedi'i gymeradwyo gan Gomisiynydd y GCymraeg ar 18 Rhagfyr 2017).
- 1.2 Fel rhan o fonitro cynnydd y Banc wrth gyflenwi ei gynllun. Mae'r Banc wedi paratoi'r adroddiad monitor blynyddol hwn. Mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Mae hyn yn diwallu ymrwymiad i adrodd am gynnydd fel y'i cyflwynir ym mharagraff 8.3 cynllun y Banc.

2 Sut y cafodd y Gymraeg ei hystyried a'i hyrwyddo

- 2.1 Dros y cyfnod adrodd, mae'r Banc wedi parhau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg..
- 2.2 Yn gyson ag adran 6.10 o'i gynllun, mae'r Banc wedi parhau i hyrwyddo ei ddeunyddiau Cymraeg trwy eu gwneud yn uniongyrchol hygyrch o holl dudalennau'r wefan trwy gyfrwng 'dolen gyflym' ('Cymraeg') yn nhroedyn pob tudalen. Mae hyn yn mynd â'r gynulleidfa i un dudalen sy'n tynnu ynghyd yr holl gynnwys Cymraeg ar wefan y Banc. Yn ystod y cyfnod adrodd, derbyniodd y dudalen 427 o ymweliadau unigryw â thudalennau.
- 2.3 Yn gyson ag adran 6.11 o'i gynllun, mae'r Banc yn parhau i ddarparu deunydd addysgol newydd a diweddar yn Gymraeg. Ym mis Gorffennaf 2025, gofynnwyd i'r cyhoedd roi eu barn am ba thema yr hoffent ei gweld yn cael ei chynrychioli yng nghynllun y gyfres nesaf o nodiadau banc. Gwnaethom y ddogfen ymgynghori hon ar gael yn Gymraeg.
- 2.4 Yn gyson ag adrannau 4.5, 6.6 a 6.7, mae'r Banc yn parhau i sicrhau bod ei brif lyfryn addysg ar bapurau banc, 'Cymerwch olwg agosach', yn Gymraeg. Yn ogystal, mae'r Banc hefyd wedi cynhyrchu fersiynau Cymraeg o'i daflen a'i boster sy'n manylu ar y nodweddion diogelwch ar y papurau £20 a £50 polymer newydd.² Mae'r Banc hefyd yn parhau i gynnig ei brif adnoddau addysg 'EconoMe' a 'Money and Me' yn Gymraeg.^{3,4}
- 2.5 Rydym hefyd yn parhau i gyflenwi fersiynau Cymraeg o lyfrynau ein Amgueddfa: 'Eich Arian: Beth mae'r Banc yn Ei Wneud' ac 'Eich Arian a'r System Ariannol' ar gais.
- 2.6 Mae Asiantaeth y Banc i Gymru yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg, yn unol â'r Atodiad i gynllun y Banc:
- Anogir staff Asiantaeth y Banc i Gymru i gynnwys cyfarchiad byr yn Gymraeg wrth ateb y ffonau;

¹ <https://www.bankofengland.co.uk/-/media/boe/files/about/boe-welsh-language-scheme.pdf>

² <https://www.bankofengland.co.uk/banknotes/counterfeit-banknotes/how-to-check-your-banknotes>

³ <https://www.bankofengland.co.uk/education/econome>

⁴ <https://www.bankofengland.co.uk/education/education-resources/money-and-me>

- Mae llofnodion, ymwadiadau a chyngor ar y Ddeddf Diogelu Data Dwyieithog Cymraeg/Saesneg lle mae hynny'n briodol, yn cael eu cynnwys yn nhroedynnau e-byst a anfonir gan staff yr Asiantaeth; a
- Mae cyfrif Twitter yr Asiantaeth i Gymru yn adlewyrchu'r iaith Gymraeg

Mae Dirprwy Asiant y Banc, sy'n siarad Cymraeg, yn parhau i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymweld â chwmnïau lle mae hynny'n berthnasol.

2.7 Ni dderbyniodd y Banc unrhyw geisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 na cheisiadau gwrthrych am wybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 yn Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd..

2.8 Mae'r Banc wedi parhau i ddefnyddio cyfieithwyr/cyfieithwyr ar y pryd cymwys yn unig wrth gyfieithu dogfennau (megis yr adroddiad monitro blynyddol hwn) i'r Gymraeg. Mae hyn yn gyson â pharagraff 7.8 o'r cynllun.

3 **Data ar gŵynion a'r camau a gymerwyd i'w datrys**

3.1 Mae paragraff 10.2 o'r Cynllun yn darparu ar gyfer anfon cwynion neu awgrymiadau ar gyfer gwella i'r Banc. Yn ystod y cyfnod adrodd ni dderbyniodd y Banc unrhyw gŵynion nac awgrymiadau ar gyfer gwella.